# SEFYDLIAD Y MERCHED
# DOLWYDDELAN

Rŵan ta latsh, ydych chi erioed wedi ystyried ymuno â'n Sefydliad y Merched?

Sefydlwyd y Sefydliad y Merched cyntaf ym Mhrydain yn Llanfairpwll, Ynys Môn ar Fedi'r $16^{eg}$ 1915. Mae wedi mynd o nerth i nerth ers hynny.

Nes imi ymuno, doeddwn i heb sylweddoli pa mor weithgar a rhagweithiol oedd Sefydliad y Merched. Hawdd oedd eu diystyru gan gyfeirio atyn nhw'n wamal fel "Jam a Jerwsalem" a'r "Calendar Girls."

Rydym yn grŵp o ferched deallus, llawn mynd gydag amrywiaeth eang o ddiddordebau, cymeriadau ac angerddau, ynghyd â chwilfrydedd calonogol. Byddwn yn ymdrin â phynciau newydd a difyr ym mhob cyfarfod gan wahodd siaradwr sy'n ennyn diddordeb yn aml o'r tu hwnt i'r gymuned. Mae yna hefyd gyfle i ymuno gyda Sefydliadau'r Merched eraill i gyflawni gweithgareddau a chyfrannu tuag at ymgyrchoedd cenedlaethol.

Mae'n ffordd wych o wneud ffrindiau o'r un anian yn y fro, a byddem wrth ein bodd pe baech chi'n ymuno gyda ni!

Os hoffech chi ddod i gyfarfod, rydym yn cwrdd am 7yh ar ddydd Gwener 1af y mis. Mae gennym arlwy amrywiol dros ben o ddysgu am anifeiliaid ysglyfaethus, ymweld â chanolfan halen i greu celf a chrefft ar gyfer y Nadolig. At hyn, mae gennym ni noson chwist wedi'i drefnu a nosweithiau cwis rhwng sefydliadau.

I wybod mwy, cysylltwch gydag ein hysgrifennydd, Ali Liederbach ar 07780 165844 Rydym yn edrych ymlaen yn arw at eich croesawu cyn bo hir.

Sylwch: Does yna neb wedi crybwyll gwneud jam neu gael tynnu llun ar gyfer calendr hyd yma.

Marianne Moses (Aelod o Sefydliad y Merched)